# Cyllideb Ddrafft 2025-26 Llywodraeth Cymru

# Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol

ISBN 978-1-83715-066-3

# Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru fel rhan o'r cylch cyllideb flynyddol. Diben yr asesiad yw adnabod tueddiadau allweddol, ac effeithiau strategol a chronnol penderfyniadau a wneir yn y Gyllideb Ddrafft. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol strategol yn lleihau effeithiau anghymesur ar unrhyw un grŵp neu ardal ddaearyddol benodol ac yn lleihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas. Mae hefyd yn helpu i adnabod cyfleoedd i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl o'n penderfyniadau buddsoddi. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol cadarn yn sicrhau bod pob punt sy’n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

2. Mae’r broses Asesu Effaith Integredig Strategol yn rhoi sylw dyladwy i’r gofynion statudol a ganlyn:

   - Deddf Cydraddoldeb 2010
   - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
   - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
   - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
   - Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

3. Mae’r broses hefyd yn rhoi sylw dyladwy i’r gofynion anstatudol a ganlyn:

   - Cydraddoldeb
   - Iechyd
   - Cyfiawnder
   - Asesiad Amgylcheddol
   - Bioamrywiaeth
   - Prawfesur Gwledig
   - Y Gymraeg

4. Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r canfyddiadau o'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol a dangos sut y bydd Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Mae ymgymryd â'r asesiad hwn yn broses iteraidd sy'n tynnu ar ystod o wybodaeth ac arbenigedd. Mae Diagram 1 isod yn rhoi trosolwg syml o'r broses sy'n arwain at lunio'r ddogfen hon.

ISBN 978-1-83715-066-3

## Asesiad Effaith Integredig Strategol: trosolwg syml

Cam 1: Cynhelir Asesiadau Effaith Integredig fel rhan o'r cylch polisi gan eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am y gyllideb.

Cam 2: Gweinidogion unigol yn ystyried effaith ar draws portffolios

Cam 2.1: Ynghyd â chyhoeddi'r prif Asesiad Effaith Integredig Strategol, mae hefyd yn ofynnol i Ysgrifenyddion y Cabinet gyhoeddi eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgorau craffu.

Cam 3: Mae Trysorlys Cymru yn defnyddio gwybodaeth mewn Asesiadau Effaith Integredig, gan swyddogion polisi a thystiolaeth ehangach sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau Gweinidogion unigol.

Cam 4: Asesu Effeithiau i lywio'r Asesiad Effaith Integredig Strategol:

- Dadansoddiad iteraidd o ystod o ffynonellau tystiolaeth macro i nodi tueddiadau allweddol ac effeithiau cysylltiedig ac ystyried y ffordd orau o gydweddu cyllid â chanlyniadau i sicrhau gwerth am arian.
- Ystyried blaenoriaethau'r Prif Weinidog a chysylltiadau ag adroddiad Llesiant Cymru 2024 a dangosyddion cenedlaethol.
- Adolygiad iteraidd o'r effeithiau a nodwyd o bob rhan o Lywodraeth Cymru a nodi unrhyw effeithiau cronnol, croestoriadol neu anfwriadol. Ystyried cyfleoedd posibl i hybu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol.
- Gall Cam 4 arwain yn ôl i Gamau 2 a 3 neu ymlaen i Gam 5.

Cam 5: Y Cabinet yn ystyried dyraniadau posibl y Gyllideb Ddrafft

- Gall Cam 5 arwain yn ôl i Gam 4 neu ymlaen i Gam 6.

Cam 6: Llunio Cyllideb Ddrafft ar sail penderfyniadau'r Cabinet.


- Gall Cam 6 arwain yn ôl i Gam 5 neu ymlaen i Gam 7.

Cam 7: Llunio a chyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol

- Yn crynhoi'r effeithiau strategol ar draws ystod o feysydd effaith a gofynion statudol.
- Yn cysylltu'r meysydd a nodwyd â phenderfyniadau strategol am y gyllideb.
- Gall Cam 7 arwain yn ôl i Gam 6.

Cam 8: Cyhoeddir y ddogfen yn y Gyllideb Ddrafft.

ISBN 978-1-83715-066-3




5. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ar wahân i Asesiadau Effaith Integredig Llywodraeth Cymru, ond mae'n yn gysylltiedig â hwy. Mae'r rhain yn asesu effeithiau penderfyniadau ar lefel prosiect neu bolisi unigol. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau o'r farn bod cynnal asesiadau effaith drwy ddull integredig yn ein galluogi i feithrin dealltwriaeth well o effaith penderfyniadau ar wariant, gan geisio deall effeithiau trawstoriadol ac anfwriadol gwariant yn well er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith orau bosibl.

6. Ystyrir amryw o ffynonellau macro-dystiolaeth fel rhan o'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol, gan gynnwys adroddiad Llesiant Cymru, yr adroddiad pum mlynedd ar Dueddiadau'r Dyfodol a'r adroddiad blynyddol ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr). Rydym hefyd yn gweithio gydag unedau tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf. Ystyrir tystiolaeth ffurfiol ac anffurfiol yn briodol fel rhan o'r broses hon, sy'n cynnwys gwaith meithrin cysylltiadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal â'r Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd wedi bod yn ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol yn unol â gofynion y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol (rhan o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024).

7. Ni fydd y ddogfen hon yn:

- Darparu asesiadau effaith integredig unigol ar gyfer prosiectau, polisïau a phenderfyniadau penodol.
- Manylu ar bob proses benderfynu unigol a/neu ddarn o dystiolaeth a adolygwyd fel rhan o'r broses hon.
- Darparu rhestr o bob nodwedd neu faes effaith unigol a ystyrir.

ISBN 978-1-83715-066-3

8. Dylid darllen yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ar y cyd â Naratif y Gyllideb Ddrafft a'r dogfennau ategol, fel adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru a'r Dadansoddiad o Effaith Ddosbarthiadol.

9. Ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r holl dystiolaeth Weinidogol i bwyllgorau craffu'r Senedd. Bydd hyn yn rhoi manylion gan bob portffolio Gweinidogol ar y dyraniadau penodol a wnaed, gan gynnwys gwybodaeth am effaith y penderfyniadau, a bydd ar gael yn adran Cyllideb Ddrafft 2025-26 gwefan Llywodraeth Cymru o ganol mis Ionawr 2025.

## Datblygu ein dull o asesu effaith

10. Yn 2022 gwnaethom sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Mae'r grŵp yn cynghori Llywodraeth Cymru o safbwynt cydraddoldeb a chynhwysiant i sicrhau bod prosesau cyllideb a threth yn gwneud yn siŵr bod cyllid yn cyd-fynd yn well â chanlyniadau. Mae'r grŵp yn ein cefnogi i gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb, map trywydd manwl o welliannau a gynlluniwyd. Gellir dod o hyd iddo ar dudalen we Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26.

11. Rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau â llywodraethau eraill yr ystyrir eu bod yn arweinwyr y byd o ran prosesau asesu effaith drwy'r Rhwydwaith Llywodraethau Llesiant (WeGo). Mae'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn y rhwydwaith hwn yn parhau i'n cefnogi ni wrth inni esblygu a gwella ein dull o asesu effaith.

12. Bydd y broses o gynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol a chyfathrebu'r broses honno i gynulleidfa ehangach yn un o welliant parhaus, a bydd yn esblygu dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn cynnal adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, sydd i fod i ddod i ben yn 2025, a byddwn yn ystyried unrhyw argymhellion gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb.

13. Hoffem ddiolch eto i aelodau'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb am barhau i'n cefnogi ar y daith hon.

14. Mae'r canlynol yn grynodeb o rai o'r tueddiadau allweddol a'r meysydd effaith a nodwyd ar draws blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Darperir asesiad manylach o dueddiadau economaidd a chyllidol yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru.

15. Trwy gydol yr Asesiad Effaith Integredig Strategol rydym wedi ceisio nodi lle mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cefnogi blaenoriaethau'r Prif Weinidog, y Nodau Llesiant perthnasol a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru.

ISBN 978-1-83715-066-3

16. Er bod gennym bwerau codi trethi datganoledig cyfyngedig, mae'r rhan fwyaf o'n cyllid yn parhau i ddod yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU fel grant bloc. Mae hyn yn golygu bod Cymru yn agored i bolisi cyllidol Llywodraeth y DU.

17. Am y tro cyntaf ers 14 blynedd, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU sy'n rhannu ein gwerthoedd. Y Gyllideb Ddrafft eleni yw'r cam cyntaf tuag at ailadeiladu ein gwasanaethau cyhoeddus a hybu twf economaidd. Mae'n darparu'r cyllid i gyflawni ein blaenoriaethau sef Iechyd Da, Swyddi a Thwf Gwyrdd, Cyfle i Bob Teulu a Chysylltu Cymunedau. Cafodd y blaenoriaethau hyn, yn eu tro, eu llunio gan yr adborth a gafodd y Prif Weinidog gan y cyhoedd yn ystod ei thaith wrando dros yr haf yn 2024.

18. Mae'r Gyllideb Ddrafft eleni yn newid o ran ein sefyllfa ariannol, gyda chynnydd yn y cyllid ar draws pob adran. Mae hon yn gyllideb ar gyfer dyfodol mwy disglair a bydd yn darparu dros £1bn yn ychwanegol i Gymru i helpu i fuddsoddi ac ailadeiladu ein gwasanaethau cyhoeddus, sy'n dra gwahanol i'r llynedd lle bu'n rhaid i ni wneud rhai dewisiadau anodd iawn.

19. Rydym yn darparu mwy o gyllid ar gyfer pob adran o'i gymharu â 2024-25 a fydd o fudd i feysydd allweddol fel iechyd, llywodraeth leol, addysg, trafnidiaeth, a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

20. Rydym yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac yn buddsoddi mewn dyfodol mwy disglair. Bydd cynlluniau gwario cyfalaf yn fwy na £3 biliwn am y tro cyntaf yng nghyfnod y Gyllideb Drafft, gan alluogi buddsoddiadau sylweddol mewn ysgolion, seilwaith y GIG, a gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus.

## Prif Weinidog, Cabinet a Blaenoriaethau newydd

21. Ym mis Awst 2024, daeth Eluned Morgan AS yn Brif Weinidog Cymru. Ar ôl cynnal taith wrando ledled Cymru, nododd bedair blaenoriaeth ar gyfer ei llywodraeth newydd:

- **Iechyd da** – lleihau amseroedd aros yn y Gwasanaeth Iechyd, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl; a gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd menywod.

- **Swyddi a thwf gwyrdd** – creu swyddi gwyrdd sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill; a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru.

- **Cyfle i bob teulu** – hybu safonau mewn ysgolion a cholegau a darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo.

- **Cysylltu cymunedau** – trawsnewid ein rheilffyrdd a darparu gwell rhwydwaith bysiau; a thrwsio ein ffyrdd a grymuso cymunedau lleol i benderfynu ar y terfyn cyflymder 20mya.

ISBN 978-1-83715-066-3

22. Mae gan flaenoriaethau'r Prif Weinidog gysylltiadau clir â'r nodau llesiant, gan gynnwys:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau mwy cydlynus

## Cyd-destun yr effeithiau a nodwyd

23. Mae effeithiau parhaus chwyddiant uchel blaenorol a'r argyfwng costau byw, gan gynnwys ynni, bwyd a chyfraddau llog uwch, yn parhau i gael mwy o effaith ar y rhai sydd â'r incwm isaf sydd mewn mwy o berygl o leihau gwariant ar hanfodion fel bwyd a gwres. Er bod cyfradd y cynnydd mewn prisiau wedi gostwng, mae prisiau bwyd yn dal i effeithio ar bobl ar incwm isel, gydag Ymddiriedolaeth Trussel yn darparu mwy o barseli bwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na'r blynyddoedd blaenorol yng Nghymru. Roedd dros hanner y bobl a atgyfeiriwyd ar gyfer taliadau ariannol brys i dalu am hanfodion yng nghanol 2022 yn fenywod, gyda bron i un o bob pump o'r menywod hyn wedi profi trais domestig yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae pobl anabl, oedolion sengl sy'n byw ar eu pennau eu hunain a theuluoedd â phlant hefyd yn wynebu'r perygl mwyaf o ddiffyg diogeledd bwyd, gyda mwy o angen o ran defnyddio banciau bwyd.

24. Mae effeithiau newid hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau difreintiedig. Mae'r rhain yn cynnwys y bobl hynny o aelwydydd incwm isel sy'n fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd â llygredd aer uchel ac sydd â llai o adnoddau i baratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd ac adfer ohonynt. Gall pobl hŷn a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor hefyd fod yn fwy agored i ansawdd aer gwael a salwch sy'n gysylltiedig â gwres, a chael eu heffeithio'n fwy gan darfu ar wasanaethau iechyd a chymorth sy'n deillio o dywydd eithafol.

25. Mae pobl sy'n dod o aelwydydd tlotach, pobl anabl, LHDTC+ neu o gymunedau lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl o ran iechyd meddwl gwael ac unigrwydd. Mae'r galw am ofal iechyd meddwl hefyd yn parhau i fod yn sylweddol uchel ymhlith plant a phobl ifanc. Er bod menywod yn parhau i fod â disgwyliad oes hirach na dynion, mae cyfran yr oes a dreulir mewn iechyd da yn is nag i ddynion. Mae adroddiadau'n tynnu sylw at y ffaith bod dynion yn fwy tebygol na menywod o deimlo'n fodlon â gwasanaethau gofal iechyd, gyda theimladau o amharodrwydd gan fenywod ynghylch cysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gall allgáu digidol fod yn rhwystr sylweddol i bobl hŷn sy'n ceisio cael mynediad at bractisau meddygon teulu wrth i fwy o wasanaethau symud ar-lein. Mae pobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran iaith. Yn aml nid ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac mewn rhai achosion maent yn wynebu gwahaniaethu nid yn unig oherwydd hil ond hefyd yn sgil oedran.

ISBN 978-1-83715-066-3

26. Mae marwolaethau mamau a babanod yn parhau i fod yn uwch ymhlith menywod o gefndiroedd ethnig Du ac Asiaidd o'i gymharu â menywod Gwyn ar gyfer 2020-22 yn y DU. Mae cyflyrau iechyd meddwl hefyd yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer menywod beichiog, gyda menywod iau yn fwy tebygol o nodi cyflwr iechyd meddwl. Mae adroddiad Age Cymru yn tynnu sylw, ochr yn ochr ag oedi o ran gwasanaethau gofal cymdeithasol a chyfrifoldebau gofalu, bod pobl hŷn yn nodi effaith barhaus argyfwng costau byw fel yr her fwyaf y maent yn ei hwynebu, gan waethygu i bobl hŷn anabl.

27. Gwelir yng nghanlyniadau PISA a TGAU bod y bwlch rhwng lefel perfformiad ar gyfer y disgyblion lleiaf difreintiedig a'r disgyblion mwyaf difreintiedig ledled Cymru yn dal i fod yn amlwg. Mae adroddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) yn tynnu sylw pellach mai'r plant mwyaf difreintiedig ledled Cymru sydd â'r sgoriau addysgol isaf o ran darllen a gwyddoniaeth, a'r ail isaf ar gyfer mathemateg, o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau na phobl nad ydynt yn anabl, gydag adroddiadau diweddar am blant a phobl ifanc anabl yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran gofal plant cyfartal a mynediad at addysg.

28. Mae pobl anabl a phobl ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, yn profi anghydraddoldebau o ran cyflog neu mewn gwaith ansicr. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer cyfraddau cyflogaeth yn dangos bod 82.8% o bobl nad ydynt yn anabl wedi'u cyflogi o'i gymharu â 52.7% o bobl anabl yng Nghymru. Mae data Cyfrifiad 2021 sy'n archwilio croestoriad o ethnigrwydd ac anabledd yn dangos bod oedolion anabl a oedd yn nodi eu bod yn 'Wyn' yn llai tebygol o fod yn ddi-waith nag oedolion nad ydynt yn anabl o gefndir ethnig leiafrifol.

29. Mae gan fenywod gyfraddau cyflogaeth is o gymharu â dynion ac maent yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau rhan-amser ac ar gyflogau is. Mae'r bwlch rhywedd yn parhau, ond eto mae menywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cael eu heffeithio'n arbennig. Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl, gan gynyddu eu siawns o ddatblygu iechyd a lles gwael. Adroddir mai cyfrifoldebau gofalu yw'r rhwystr mwyaf i gydraddoldeb rhywedd.

30. Mae'r rhai o gefndiroedd tlotach yn ogystal â phobl sy'n anabl, LHDTC+ neu o gefndiroedd ethnig leiafrifol; yn fwy tebygol o wynebu anghydraddoldebau o ran tai neu fod mewn perygl o fod yn ddigartref, gan dynnu sylw at yr angen am fwy o dai cymdeithasol. Mae Sefydliad Bevan yn adrodd ar yr argyfwng tai presennol gyda'r nifer uchaf erioed o aelwydydd yn cael eu rhoi mewn llety dros dro o ansawdd gwael ar hyn o bryd, ac mae gan hanner ohonynt blant.

31. Mae tlodi yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd â phlant, pobl sengl, pobl anabl neu y mae eu prif enillydd incwm yn dod o gymuned ethnig leiafrifol. Mae tlodi yn gysylltiedig â risg uwch o drais domestig, iechyd cyffredinol tlotach a llai o allu i feithrin ymddygiadau da o ran byw'n iach. Mae cyfraddau amddifadedd materol wedi cynyddu'n gyffredinol ymhlith oedolion oedran gweithio, gyda phlant a'r rhai mewn tai cymdeithasol yn wynebu'r risg fwyaf. Plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, ac mae cyfraddau'n parhau i fod yn sylweddol uchel. Y rhai o

ISBN 978-1-83715-066-3

aelwydydd tlotach sydd â'r risg fwyaf o dderbyn gofal a datblygu cyflyrau iechyd meddwl, gan gynyddu eu siawns o wynebu caledi pan fyddant yn oedolion.

32. Mae penderfyniadau a wneir am wasanaethau bysiau yn cael effaith anghymesur ar fenywod; pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol; pobl anabl; pobl hŷn a phobl iau; a'r rhai sydd â gwaith cyflog isel neu ansicr. Mae'r rhai o ardaloedd gwledig hefyd yn dibynnu'n fawr ar drafnidiaeth ceir preifat yn sgil llai o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gyda mwy o angen i gysylltu'r cymunedau hyn a allai fod yn ynysig.

33. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2024 yn esbonio bod y dangosydd cenedlaethol ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wedi'i gasglu deirgwaith, gan ddechrau yn 2017-18. Er nad yw canran yr oedolion sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn rheolaidd yn sylweddol wahanol eleni, mae gwahaniaethau eang yn parhau yn dibynnu ar oedran, iechyd, amddifadedd a chymwysterau, ond nid ar gyfer rhyw neu grŵp ethnig. Mae tystiolaeth yn dangos bod rhwystrau lluosog i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig wrth gael mynediad at ddiwylliant a threftadaeth. Mae angen ymdrin â'r rhain i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau corfforol, canfyddedig ac ariannol. Efallai y bydd pobl sydd o dan anfantais yn economaidd, pobl o gymunedau ethnig amrywiol, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a grwpiau agored i niwed yn ei chael hi'n anoddach cael mynediad i safleoedd diwylliannol, i gael profiadau diwylliannol a chymryd rhan lawn mewn gweithgareddau diwylliannol yng Nghymru.

## Dadansoddiad o effeithiau Cyllideb Ddrafft 2025-26

34. Mae'r adran hon wedi'i llunio i adlewyrchu'r pedwar maes datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n nodi'r meysydd llesiant sy'n cael eu hystyried fel rhan o'n dull gweithredu, sef cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

## Cymdeithasol

35. Mae rhan sylweddol o gyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael ei gwario naill ai'n uniongyrchol ar gyflogau'r sector cyhoeddus ar draws yr amrywiol sectorau datganoledig neu drwy setliadau a ddarperir i bartneriaid cyflenwi, gan gefnogi mwy na 200,000 o weithwyr, o staff y GIG i athrawon a gweithwyr llywodraeth leol, yn ogystal â gweision sifil a gweithwyr cyrff hyd braich. Yn 2024-25, darparwyd cyllid canlyniadol ychwanegol gan Lywodraeth y DU, a oedd, ochr yn ochr â'n cynllunio cyllidol ein hunain, yn golygu bod dyfarniadau uwch na chwyddiant a argymhellwyd gan y cyrff adolygu cyflogau annibynnol wedi'u hariannu - mae'r rhain wedi'u gosod fel llinell sylfaen yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26. Rhoddwyd cymorth ychwanegol hefyd i lywodraeth leol i gydnabod y pwysau y maent yn eu hwynebu. Yng Nghyllideb y DU ar 30 Hydref, nododd Llywodraeth y DU yn glir y bydd angen i setliadau adrannol ariannu'r rownd nesaf o ddyfarniadau cyflog yn 2025-26. Bydd y

ISBN 978-1-83715-066-3

dyfarniadau cyflog uwch na chwyddiant hyn yn cefnogi gweithwyr y sector cyhoeddus mewn swyddi cyflog is ac maent yn fuddsoddiad yn ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi ehangach.

36. Mae chwyddiant cynyddol, yr argyfwng costau byw a chyfraddau llog uwch i gyd wedi cael effaith andwyol ar anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'n gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn parhau i brofi pwysau eithafol. Gyda chyfran fwy o fenywod na dynion yn cael eu cyflogi yn y sector hwn, bydd unrhyw bwysau cynyddol ar y gwasanaethau hyn yn cael effaith anghymesur ar fenywod. Mae hyn yn gofyn am ganolbwyntio ar gefnogi cymunedau a mynd i'r afael â'r pwysau a wynebir wrth ailadeiladu gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn hygyrch i bawb.

37. Bydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn teimlo'r effeithiau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ond mae'r effeithiau negyddol yn debygol o daro'r rhai mwyaf agored i niwed yn galetach, yn enwedig y rhai â chyflyrau iechyd cymhleth, yr henoed a phlant.

38. Mae pwysau sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio gyda chyflyrau iechyd cymhleth yn debygol o waethygu o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r niferoedd uwch o bobl sy'n byw mewn tlodi. Mae adroddiad [Llesiant Cymru 2024] yn nodi, rhwng 2020-21 a 2022-23, bod 21% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai). Fodd bynnag, mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 18 mlynedd, gyda phlant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r boblogaeth yn gyffredinol.

39. Mae adroddiadau Llesiant Cymru blaenorol wedi canfod bod anghydraddoldebau'n ehangu, bod yr argyfwng costau byw wedi effeithio ar incwm pobl, a bod plant a phobl ifanc yn dioddef yn waeth ers y pandemig. Gydag Arolwg Cenedlaethol Cymru heb ei gyhoeddi yn 2024, mae rhywfaint o ddata heb fod ar gael ond o edrych ar draws y dangosyddion sydd wedi'u diweddaru eleni ac ar ddata o flynyddoedd blaenorol, nid oes llawer o dystiolaeth eto bod y tueddiadau ehangach hyn yn newid.

40. Er mai ychydig iawn o bobl sydd heb eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw, nid yw'r effeithiau'n gyfartal i bob person ac aelwyd. Mae pobl anabl, pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig a phobl ar incwm is, ynghyd â'r rhai mewn tai rhent yn fwy tebygol o fod wedi lleihau eu gwariant ar fwyd a hanfodion.

41. Mae adroddiad [A yw Cymru'n decach] 2023 yn tynnu sylw at y ffaith fod pobl anabl yn llai tebygol o fod yn berchnogion tai na phobl nad ydynt yn anabl a'u bod yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi ac amddifadedd materol difrifol. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl anabl sy'n byw mewn amddifadedd materol difrifol wedi gostwng yn sylweddol, gan ddisgyn o 40.5% yn 2015-16 i 24.3% yn 2019-20. Mae hefyd yn adrodd bod pobl ethnig leiafrifol yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, gyda 40% o aelwydydd ethnig leiafrifol (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn) yn byw mewn tlodi, o'i gymharu â 22% o

ISBN 978-1-83715-066-3

aelwydydd lle mae pennaeth yr aelwyd yn wyn. Mae rhai grwpiau ethnig leiafrifol hefyd yn fwy tebygol o brofi digartrefedd a gorlenwi ac maent yn llai tebygol o fod yn berchnogion tai.

42. Ym mis Mawrth 2024, tynnodd cipolwg Sefydliad Bevan ar dlodi sylw at y ffaith bod 13% o bobl ledled Cymru yn aml neu bob amser yn cael trafferth fforddio hanfodion, gyda 31% o bobl yn mynd heb wres yn eu cartrefi a 24% yn bwyta prydau llai neu'n mynd heb brydau bwyd yn gyfan gwbl. Mae sefyllfa ariannol pobl yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd gyda 44% yn gweld dirywiad yn eu hiechyd meddwl a 30% yn gweld dirywiad i'w hiechyd corfforol. Mae A yw Cymru'n decach yn nodi mai Cymru sydd â'r galw mwyaf am dimau iechyd meddwl cymunedol i blant a phobl ifanc yn y DU.

43. Mae anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru yn ganlyniad i lawer o ffactorau amrywiol. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2024 yn amlygu bod anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes a marwolaethau yn parhau i fod yn eang. Mae dadansoddiad yn seiliedig ar y cyfnod rhwng 2018 a 2020 yn dangos bod y bwlch cyffredinol mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a lleiaf wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2011-13 a 2018-20. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y bwlch hwn wedi lleihau ychydig ar gyfer dynion yn y cyfnod diweddaraf (13.3 mlynedd) ac wedi cynyddu ychydig ar gyfer menywod (16.9 mlynedd). Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer disgwyliad oes iach yw cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch rhwng disgwyliad oes iach y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050.

44. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2024 yn nodi bod canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref, a'u rhyddhau o ddigartrefedd wedi gostwng, tra bod nifer yr unigolion mewn llety dros dro wedi cynyddu. Er bod y nifer wedi gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf, amcangyfrifir bod nifer yr unigolion a oedd yn cysgu allan ym mis Mehefin 2024 dros 30% yn uwch o gymharu ag amcangyfrifon 2022.

45. Mae adroddiad Cyflwr y Genedl Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru 2024 yn nodi mai rhieni sengl, y mwyafrif helaeth ohonynt yn fenywod, sy'n parhau i wynebu'r risg uchaf o bob math o aelwydydd, gyda bron i un o bob tri yn profi tlodi incwm cymharol. Gyda'r argyfwng costau byw i ymgodymu ag ef, mae menywod yn teimlo'r esgid yn gwasgu'n dynnach na dynion. Menywod yw'r rhan fwyaf o hawlwyr Credyd Cynhwysol o hyd (58%) ac maent yn parhau i fod yn fwy tebygol na dynion o ddibynnu ar Gredyd Cynhwysol er eu bod yn gweithio, gyda'r bwlch rhwng y rhywiau ar gyfer hawlwyr mewn gwaith wedi cynyddu ychydig. Mae menywod 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu ddomestig (25.2% o fenywod o gymharu â 7% o ddynion), a bron i deirgwaith yn fwy tebygol na dynion o fod yn gweithio'n rhan-amser (37% o fenywod o gymharu â 14% o ddynion). Nododd mwy na chwarter y menywod (25.2%) mai eu cyfrifoldebau yn edrych ar ôl y teulu neu'r cartref oedd y rheswm dros yr anweithgarwch economaidd hwn.

ISBN 978-1-83715-066-3

46. Mae'r effeithiau strategol allweddol hyn, yn ogystal ag ystyried effeithiau ehangach, wedi bod yn sail i'r dyraniadau Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, gyda phwyslais ar yr ymrwymiad i gyflawni pedair blaenoriaeth y Prif Weinidog:

- Rydym yn buddsoddi £435m o gyllid adnoddau ychwanegol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2025-26. Mae hyn yn dod â chyfanswm y cyllid adnoddau blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i £11.915bn. Bydd dros £400m o'r cyllid newydd hwn yn cefnogi ystod o ddyraniadau ychwanegol i'r GIG, gan gynnwys gwaith i leihau amseroedd aros y GIG, gwaith ar iechyd menywod, hyfforddiant y gweithlu, buddsoddiadau digidol a chyflog staff – gan adeiladu ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2024-25. Rydym yn darparu cyllid cyfalaf ychwanegol i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan ddod â chyfanswm ein buddsoddiad cyfalaf yn y Gyllideb ddrafft hon i £614m. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynnal ac yn gwella seilwaith ystad y GIG, yn buddsoddi ymhellach yn y technolegau digidol diweddaraf, yn ogystal ag argaeledd offer addas i'r diben, modern, a dibynadwy i helpu i atal colli cynhyrchiant o fewn y GIG a helpu i leihau amseroedd aros trwy fynd i'r afael â breuder a chynaliadwyedd y seilwaith.
- Bydd £3m o gyllid adnoddau yn mynd tuag at wasanaethau ar gyfer iechyd menywod.
- Yn 2025-26 ceir cynnydd o £253m i'r setliad llywodraeth leol. Dyma godiad cyfatebol o £4.3% (i’r setliad llywodraeth leol).
- Mae £2.5m o gyllid cyfalaf ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer y rhaglen Cartrefi Cynnes i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a theuluoedd incwm isel.
- Mae £5m o gyllid adnoddau ychwanegol at gyllidebau Cefnogi Cymunedau yn hwb sylweddol i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac ariannu partneriaethau bwyd lleol, mynd i'r afael â thlodi plant a chefnogi'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Tlodi Plant yn ogystal ag ehangu'r gefnogaeth i Hybiau Cynnes i barhau i ddarparu lleoedd diogel a chynnes o fewn cymunedau lleol.
- Mae £1.2m o gyllid adnoddau ychwanegol yn cael ei fuddsoddi i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i roi cymorth a chyngor i ddioddefwyr ar draws pob rhan o Gymru drwy Gyllid Grant Rhanbarthol
- Mae cyfanswm cyllid cyfalaf o £443.9m yn cael ei ddarparu i gwrdd â phwysau tai, a £219.6m o gyllid adnoddau ar gyfer cymorth ac atal digartrefedd.
- Rydym yn dyrannu £57m o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol i gadw'r cynllun Cymorth i Brynu Cymru presennol am 18 mis arall. Bydd y cyllid yn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu tai a'r gadwyn gyflenwi datblygu. Mae llawer o ddatblygiadau newydd yn ymgorffori nodweddion gwyrdd ychwanegol fel ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
- Mae cyllid ychwanegol o £73m o gyllid adnoddau a £28m o gyllid cyfalaf ar gyfer Addysg yn cael ei ddyrannu i gefnogi meysydd allweddol fel Anghenion Dysgu Ychwanegol, Llythrennedd a Rhifedd, yn ogystal â chynyddu Lwfans Cynhaliaeth Addysg i sicrhau bod trothwy incwm aelwydydd yn cyd-fynd â'r cyflog byw gwirioneddol.

ISBN 978-1-83715-066-3

- Mae hyn yn cynnwys £7m ychwanegol o gyllid adnoddau a fydd yn mynd tuag at gefnogi presenoldeb mewn ysgolion gan ein bod yn gwybod fod gormod o blant a phobl ifanc yn peidio â mynd i'r ysgol yn rheolaidd. Mae hyn yn effeithio ar eu haddysg, gan ehangu'r bwlch mewn lefelau cyrhaeddiad.
- Bydd £182m o gyllid cyfalaf yn cael ei fuddsoddi yn ein rheilffyrdd a bydd £9m ychwanegol o gyllid adnoddau yn cael ei ddarparu i dalu costau ychwanegol gwasanaethau a'r cynllun tocynnau teithio consesiwn a arweinir gan alw.
- Bydd cymorth cyllid adnoddau o £1m yn cael ei ddarparu ar gyfer Argyfyngau Sifil a Gwydnwch Cenedlaethol i helpu i gadw pobl Cymru'n ddiogel, gan gynnwys atgyfnerthu ein dull o baratoi ar gyfer argyfwng.

## Economaidd

47. Darperir gwybodaeth fanwl am y rhagolygon economaidd yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru (WEFR). Er bod llawer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, mae disgwyl iddynt gael effaith negyddol ar economi Cymru a safonau byw pobl.

48. Mae Llywodraeth Cymru’n cael ei hariannu’n bennaf gan grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU. Mae datganoli pwerau treth – Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a Threthi Annomestig – yn golygu y bydd tua 20% o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ariannu o refeniw o drethi datganoledig yn 2025-26.

49. Mae dangosfwrdd Economi Cymru mewn Rhifau yn rhoi trosolwg o sut mae economi Cymru yn perfformio o gymharu â rhanbarthau Lloegr a gwledydd y DU yn erbyn wyth dangosydd allweddol. Mae'r ffigurau diweddaraf (Tachwedd 2024) yn dangos mai'r gyfradd gyflogaeth hyd at fis Mehefin 2024 yw 73.2%, ar ôl gostwng 0.4% o bwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynyddodd Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) y pen yn 2022 cymaint â 3.5% dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae Cymru yn safle 11 allan o 12 o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Rydym wedi gweld gostyngiad yn y cyfraddau anweithgarwch economaidd yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2024, sydd bellach yn 20.6% (i lawr 0.2% o bwyntiau o'r llynedd) ond mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn uwch ar gyfer menywod (17% o ddynion, 24.2% o fenywod).

50. Mae bylchau cyflog yn parhau o fewn y gweithlu. Mae'r Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion 2024 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar sail cyflog amser llawn canolrifol fesul awr (ac eithrio goramser) ym mis Ebrill 2024 yn 1.9% yng Nghymru a 7.0% yn y DU. Yng Nghymru fe wnaeth y bwlch leihau o 3.0 pwynt canran ac yn y DU mae wedi lleihau 0.5 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

51. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2024 yn nodi bod proffil cymwysterau poblogaeth oedran gweithio Cymru wedi bod yn gwella dros amser. Yn 2023, cynyddodd cyfran y boblogaeth gyda chymwysterau lefel 3 (cyfwerth â Safon

ISBN 978-1-83715-066-3

Uwch) a lefel 4 (cyfwerth â lefel gradd), ac roedd gostyngiad bach yng nghyfran y boblogaeth heb unrhyw gymwysterau o gwbl. Roedd cyfran yr oedolion anabl o oedran gweithio heb gymwysterau wedi gostwng 2.4 pwynt canran rhwng 2022 a 2023. Er hyn, roedd pobl anabl yn dal yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau (13.9%) na phobl nad ydynt yn anabl (5.6%).

52. Mae addysg a sgiliau yn parhau i fod yn un o'r arfau pwysicaf i fynd i'r afael â thlodi. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru (mis Medi i fis Tachwedd 2024) yn dangos mai cyfartaledd presenoldeb y flwyddyn academaidd hon hyd yma yw 91.8%, i fyny o 91.3% ar gyfer yr un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2023-24. Y cyfartaledd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd hon hyd yma ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 86.8%, i fyny o 86.3% dros yr un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2023-24, ac ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y presenoldeb cyfartalog yw 93.5%, i fyny o 93.0%.

53. Fodd bynnag, mae presenoldeb cyfartalog yn gostwng wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Mae'r cyfartaledd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd hon hyd yma ar ei isaf ymhlith disgyblion ym mlwyddyn 11 (88.2%) ac ar ei uchaf ymhlith disgyblion ym mlwyddyn 7 (93.9%). Mae presenoldeb disgyblion blwyddyn 11 1.1 pwynt canran yn uwch nag yr oedd yn yr un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2023-24.

54. Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl yng Nghymru ac mae'n cael effaith sylweddol ar hyfywedd lleoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae trafnidiaeth, neu ddiffyg trafnidiaeth, yn cael effaith enfawr ar iechyd corfforol a meddyliol pobl ac mae heriau daearyddol penodol yn gysylltiedig â darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae gan drafnidiaeth rôl hanfodol i'w chwarae wrth dyfu'r economi trwy helpu pobl sy'n gaeth mewn tlodi, a chefnogi gallu pobl i gael mynediad at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gwasanaethau lleol eraill fel llyfrgelloedd. Mae bysiau yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan bobl ar incwm isel neu'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt.

55. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2024 yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfaint traffig ffyrdd yng Nghymru wedi cynyddu 2% yn 2023 o'i gymharu â 2022. O'i gymharu â 2021-22, cynyddodd teithiau bysiau lleol 16% yn 2022-23, fodd bynnag, mae hyn yn ostyngiad o 33% mewn teithiau teithwyr o'i gymharu â 2019-20.

56. Rydym yn cydnabod bod busnesau a thalwyr ardrethi eraill yn parhau i fod dan bwysau yn yr hinsawdd economaidd bresennol sy'n ymwneud â chostau ynni cynyddol, costau tanwydd, chwyddiant a chyfraddau llog uwch. Mae'r pwysau hynny hefyd yn cael eu teimlo gan y gwasanaethau cyhoeddus yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt, ac sydd eu hunain yn ddibynnol ar y refeniw a godir trwy drethi lleol. Byddwn yn rhoi cap o 1% ar y cynnydd yn y lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26.

ISBN 978-1-83715-066-3

57. Mae'r effeithiau strategol allweddol hyn, ochr yn ochr ag ystyriaeth ehangach o'r effeithiau, wedi bod yn sail i ystod o ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, gyda phwyslais ar yr ymrwymiad i gyflawni pedair blaenoriaeth y Prif Weinidog:

- Rydym yn darparu £85m o gyllid adnoddau ychwanegol ar gyfer ardrethi annomestig ar ben ein rhyddhad parhaol, sydd werth £250m y flwyddyn. Mae hyn yn adeiladu ar yr £1bn o gymorth a ddarparwyd drwy ein cynlluniau rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch ers 2020-21.
- Mae cyllideb gyfalaf gyffredinol Llywodraeth Cymru yn 2025-26 i fyny 7% mewn termau real o'i chymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24.
- Bydd £182m o gyllid cyfalaf yn cael ei fuddsoddi yn ein rheilffyrdd a bydd adnodd ychwanegol gwerth £9m yn cael ei ddarparu i dalu costau ychwanegol gwasanaethau a'r cynllun tocynnau teithio rhatach sy'n cael ei arwain gan y galw.
- Bydd £4.5m o gyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn cael ei fuddsoddi mewn Benthyciadau Busnes Gwyrdd i gefnogi busnesau bach a chanolig a busnesau canolig eu maint, i annog buddsoddiad mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni a phrosiectau datgarboneiddio.
- Gan fuddsoddi yn ein huchelgais i daclo'r argyfwng hinsawdd, rydym yn dyrannu £3m o gyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i gefnogi perchnogion tai i ôl-osod a datgarboneiddio eu cartrefi trwy ariannu pympiau gwres a phaneli solar.
- Er mwyn cefnogi microfusnesau, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol rydym yn dyrannu £2m ychwanegol o gyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i Gronfa Micro Fenthyciadau Cymru. Yn ogystal ceir buddsoddiad pellach o £3m o gyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol gan Angylion Buddsoddi i annog creu busnesau newydd a thwf economaidd yng Nghymru.
- Bydd £7m o gyllid adnoddau yn mynd tuag at gefnogi presenoldeb mewn ysgolion, gan fod presenoldeb afreolaidd yn effeithio ar lefelau cyrhaeddiad addysgol disgyblion a all yn ei dro effeithio ar eu cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol.

## Amgylcheddol

58. Rydym wedi darparu'r sylfeini i sicrhau ein bod yn cryfhau'r cysylltiad rhwng seilwaith a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy gynnal adolygiad sylfaen sero yn 2021. Fodd bynnag, mae effaith y cyfnod hir o chwyddiant uchel parhaus yn dal i effeithio ar y cynlluniau hyn.

59. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2024 yn nodi bod lefelau traffig ar y ffyrdd yng Nghymru, yn 2023, wedi cynyddu 2% o gymharu â 2022. O gymharu â 2021-22, roedd teithiau bws lleol wedi cynyddu 16% yn 2022-23. Er hynny, mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 33% yn nifer y siwrneiau gan deithwyr. Cafodd dangosydd cenedlaethol ar ganran y siwrneiau sy'n cael eu gwneud ar droed, ar gefn beic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus ei ychwanegu at y set o

ISBN 978-1-83715-066-3

ddangosyddion cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2021. Daw'r data hwn o Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

60. Mae newid yn yr hinsawdd yn fater parhaus a chyfredol, nid rhywbeth ar gyfer y dyfodol pell. Rydym yn parhau i brofi tywydd poeth, sychder ac achosion cynyddol o lifogydd ledled Cymru, ac mae pob un ohonynt yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl a'u hiechyd meddwl a chorfforol yn ogystal ag effaith negyddol ar fusnesau y mae llifogydd yn effeithio arnynt. Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad sy'n rhagweld y bydd tymereddau blynyddol yng Nghymru yn codi 1.2°C erbyn 2050; glawiad yr haf yn gostwng tua 15%; glawiad y gaeaf yn codi 6%; a lefelau'r môr yn codi 22cm. Bydd canlyniadau'r newidiadau hyn yn effeithio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gydag effaith llifogydd yn anghymesur ar gymunedau Ethnig Lleiafrifol er enghraifft.

61. Mae manteision treulio amser ym myd natur i'n llesiant meddyliol, cymdeithasol a chorfforol yn glir. Yn ôl adroddiad Llesiant Cymru 2004, roedd y dangosydd cenedlaethol ar statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2021, yn dangos bod dosbarthiad rhywogaethau wedi gostwng yn yr hirdymor, gan adlewyrchu'r darlun byd-eang o ddirywiad mewn amrywiaeth fiolegol. Mae Adroddiad Sefyllfa Natur Cymru 2023 yn datgan bod un o bob chwech o'n rhywogaethau mewn perygl o ddiflannu'n llwyr o Gymru, gan gynnwys planhigion ac anifeiliaid. Mae ansawdd ein dŵr, boed mewn moroedd, afonydd, nentydd neu'r ddaear, wedi gwella'n gyffredinol dros y degawdau diwethaf. Ond, er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran diogelu a gwella ein dyfroedd, mae llawer i'w wneud eto. Mae ansawdd yr aer wedi gwella'n fawr ers y 1970au, ond mae'n parhau i fod yn risg i iechyd pobl a byd natur.

62. Mae gan fioamrywiaeth werth cynhenid ac mae'n darparu manteision i bobl trwy wasanaethau ecosystem fel atal llifogydd a chynhyrchu bwyd. Mae adroddiad Sefyllfa Byd Natur Cymru 2023 yn esbonio bod natur yn chwarae rhan hanfodol ym mhob agwedd ar ein bywydau, a cheir tystiolaeth sylweddol o ganlyniadau negyddol byw mewn gwlad lle mae natur wedi dirywio. Mae'r rhain yn cynnwys costau anuniongyrchol fel effeithiau ar iechyd a llesiant pobl, a chostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag addasu i wasanaethau ecosystemau coll a diraddiedig.

63. Y garreg filltir genedlaethol ar fioamrywiaeth yw gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050. Yn ôl adroddiad Llesiant Cymru 2004, mae dangosydd arbrofol ar statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2021 yn dangos bod dosbarthiad rhywogaethau yng Nghymru wedi dirywio yn yr hirdymor ond ei fod yn sefydlog yn fwy diweddar. Er y gwelwyd gwelliant yn statws poblogaethau rhai rhywogaethau yng Nghymru, mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 yn dangos bod bioamrywiaeth yn dirywio ar y cyfan.

64. Mae cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir yn cynyddu 1 pwynt canran ar draws pob band, sy'n golygu y bydd y cyfraddau preswyl uwch ar

ISBN 978-1-83715-066-3

gyfer y dreth 5 pwynt canran yn uwch na'r prif gyfraddau preswyl. Amcangyfrifir y bydd y cynnydd hwn at gyllid ychwanegol o £7 miliwn yn 2025-26. Bydd yr adnoddau ychwanegol hyn yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn sicrhau bod y cynnydd yn y baich treth yn cael ei gyfyngu i'r rhai sydd â'r adnoddau i brynu eiddo preswyl ychwanegol. Nid oes unrhyw newidiadau i unrhyw un o gyfraddau na bandiau eraill y Dreth Trafodiadau Tir. Mae'r trothwy cychwynnol presennol ar gyfer prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir yn parhau ar £225,000, gan sicrhau bod tua 60% o'r trafodiadau preswyl yn is na'r trothwy ar gyfer talu'r dreth.

65. O 1 Ebrill 2025, mae disgwyl i gyfradd safonol yDreth Gwarediadau Tirlenwi gynyddu 22%. Mae hyn yn unol â'r cynnydd i Dreth Dirlenwi gyfatebol Llywodraeth y DU. Bydd pennu'r gyfradd safonol ar gyfer 2025-26 yn golygu ei bod yn parhau'n gyson â Threth Dirlenwi'r DU. O ganlyniad, bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i elwa ar y refeniw treth, gan sicrhau hefyd fod llai o risg y caiff gwastraff ei symud ar draws ffiniau. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu gwirioneddol yn y cyfnod 2022 i 2024 ar ôl sawl blwyddyn o gael ei bennu ar sail Mynegai Prisiau Manwerthu a ragamcanwyd. Nod hyn yw cymell dulliau rheoli gwastraff amgen a buddsoddi mewn seilwaith economi gylchol.

66. Bydd cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cynyddu i £6.30. Bydd hyn yn golygu bod y gyfradd is ar 5% o'r gyfradd safonol, ychydig o dan ddwbl y gyfradd bresennol. Mae'r cynnydd i'r gyfradd is fel arfer yn adlewyrchu'r newidiadau i'r gyfradd safonol, ac felly mae'r cynnydd hwn yn fwy nag yn y blynyddoedd diwethaf. Hynny er mwyn ymateb i'r angen i ddarparu cymhellion pellach i ddargyfeirio deunyddiau gwastraff â sgôr is sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd, a hefyd i gydnabod yr angen i gyfyngu ar y risgiau i wastraff gael ei symud ar draws ffiniau neu gael ei waredu'n anghyfreithlon. Bydd y gyfradd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn parhau ar 150% o gyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

67. Mae'r effeithiau strategol allweddol hyn, ochr yn ochr ag ystyriaeth ehangach, wedi bod yn sail i ystod o ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, gyda phwyslais ar yr ymrwymiad i gyflawni pedair blaenoriaeth y Prif Weinidog:

- Cyllid cyfalaf ychwanegol o £23m a chyllid adnoddau ychwanegol o £2m i gefnogi ein buddsoddiad parhaus i wneud tomenni glo a chymunedau yn ddiogel. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol, ac yn rhan o'r pecyn ehangach y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei geisio gan Lywodraeth y DU.
- Cyllid adnoddau ychwanegol o £5.15m i gefnogi cynlluniau Ynni Gwyrdd - Trydan Gwyrdd ac Ynni Lleol.
- Cyllid adnoddau ychwanegol o £5.6m a chyllid cyfalaf ychwanegol o £14m ar gyfer cynlluniau buddsoddi gwledig ehangach i gefnogi'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd hyn yn hyrwyddo twf gwyrdd drwy

ISBN 978-1-83715-066-3

annog arferion rheoli tir cynaliadwy a chreu swyddi yn y sectorau amaethyddol ac amgylcheddol.

- Cyllid cyfalaf ychwanegol o £3m ar gyfer rheoli perygl llifogydd a darparu polisi dŵr.
- Cyllid cyfalaf ychwanegol o £24m i ddatblygu a gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Effeithlonrwydd Ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd (ansawdd yr aer).

## Diwylliannol

68. Mae Cymru yn wlad sydd â threftadaeth gyfoethog ac amrywiol. Mae diwylliant, celf, amgueddfeydd, twristiaeth a chwaraeon Cymru i gyd yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd meddwl a'n llesiant ac yn darparu cyfleoedd i helpu i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol.

69. Ceir carreg filltir genedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gostyngodd nifer a chanran y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, gyda’r ganran bellach yr isaf i'w chofnodi erioed mewn cyfrifiad. Yn ôl y cyfrifiad, roedd 538,000 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn 2021, i lawr o bron i filiwn yn 1911. Nid yw'r data ar y dangosyddion cenedlaethol sy'n ymwneud â nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg wedi cael eu diweddaru eleni. Fodd bynnag, mae dadansoddiad newydd ar y defnydd o'r Gymraeg yn dangos bod dros hanner y siaradwyr Cymraeg dros 16 oed yn siarad Cymraeg gyda'u cydweithwyr o leiaf beth o'r amser, a bod ychydig o dan 1 o bob 5 bob amser yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr. Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn awgrymu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn yr hirdymor gyda chanran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r iaith bob dydd yn weddol sefydlog. Mae adroddiad A yw Cymru yn Decach 2023, yn dangos bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn rheolaidd yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol (yn 2021-22, cytunodd 86% o siaradwyr Cymraeg rheolaidd eu bod yn perthyn, o gymharu â 77% o'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rheolaidd).

70. Ar draws amrywiol ddangosyddion yn ymwneud â chydlyniant cymunedol, nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau ethnig yn y data diweddaraf o’r Arolwg Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys bodlonrwydd ar yr ardal leol, cytuno â phob un o’r tri mesur o gydlyniant cymunedol (perthyn, pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, cael eu trin â pharch), cymryd rhan yn y celfyddydau neu ddiwylliant, a gwirfoddoli.

71. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2024 yn sôn bod data wedi'i gasglu deirgwaith ar gyfer y dangosydd cenedlaethol ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan ddechrau yn 2017-18. Nid yw canran yr oedolion sy’n mynychu ac yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth yn sylweddol wahanol eleni i’r hyn a fesurwyd yn flaenorol yn 2019-20 a 2017-18. Ceir gwahaniaethau eang o hyd yn dibynnu ar oedran, iechyd, amddifadedd a chymwysterau, ond nid o ran rhyw na grwpiau ethnig.

ISBN 978-1-83715-066-3

72. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru] yn nodi bod nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos wedi cynyddu o 34% yn 2021-22. Gofynnodd yr arolwg i bobl pa weithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Dywedodd 56% ohonynt eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd (fel dosbarthiadau ffitrwydd, rhedeg/loncian, beicio neu nofio) ac 16% eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu gemau (fel pêl-droed, rygbi, tennis bwrdd neu golff). Roedd 6% yn cymryd rhan mewn campau awyr agored fel beicio, caiacio neu hwylio.  Gofynnwyd hefyd i bobl a oedd unrhyw chwaraeon neu weithgareddau y byddent yn hoffi eu gwneud, neu wneud mwy ohonynt. Dywedodd 27% ohonynt eu bod am wneud mwy o chwaraeon neu weithgarwch corfforol yn gyffredinol, sy'n ostyngiad o'r 31% yn 2021-22. Yn 2022-23, dywedodd 16% eu bod am wneud mwy o weithgareddau ffitrwydd a 10% eu bod am wneud mwy o chwaraeon neu gemau, a dywedodd 5% y byddent yn hoffi gwneud mwy o gampau awyr agored.

73. Mae arolwg [traciwr gweithgareddau Chwaraeon Cymru] (Ebrill 2024) yn adrodd bod costau byw yn parhau i gael effaith negyddol ar allu dau o bob pump (39%) oedolyn i fod yn egnïol, gydag ychydig o dan draean (30%) yn dweud eu bod wedi gwneud llai o chwaraeon a gweithgarwch corfforol o ganlyniad - sy'n ostyngiad bach ers mis Ionawr 2024 (33%). Mae ymatebwyr sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a'r ardaloedd o amddifadedd canolig yn llawer mwy tebygol o ddweud nad yw'r newidiadau mewn costau byw wedi effeithio ar eu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, o gymharu â'r rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (56%, 55% a 46%). Y gweithgaredd mwyaf cyffredin a wneir gan oedolion yng Nghymru o hyd yw cerdded ar gyfer hamdden (62%), ac mae'r gyfran sy'n gwneud y gweithgaredd hwn yn fwy o gymharu ag Ebrill 2023 (58%). Mae'r gyfran sy'n gwneud dim ymarfer corff (16%) yn is na mis Ionawr 2024 (19%) ac Ebrill 2023 (18%). Dyma'r ffigur isaf a welwyd ers Awst 2021 (16%). Un o'r rhesymau am y gostyngiad hwn oedd bod nifer yr ymatebwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig nad ydynt yn gwneud unrhyw ymarfer corff wedi gostwng yn sylweddol gymharu â mis Ionawr 2024 (14% o gymharu â 22%). Mae grwpiau sy'n cynnwys ymatebwyr hŷn (dros 55 oed, 22%) ac ymatebwyr ag anabledd (22%) yn parhau i fod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn segur. Mae cyfran yr oedolion yng Nghymru sy'n dweud eu bod yn ymarfer corff i reoli eu hiechyd meddwl (55%) wedi cynyddu ychydig o gymharu â mis Ionawr 2024 (54%), ond yn parhau'n is na mis Ebrill 2023 (58%). Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn gwneud ymarfer corff i reoli eu hiechyd corfforol (56%) hefyd wedi cynyddu o gymharu â mis Ionawr 2024 (53%) ac mae ychydig yn uwch na Ebrill 2023 (55%).

74. Mae'r effeithiau strategol allweddol hyn, ochr yn ochr ag ystyriaethau ehangach, wedi bod yn sail i ystod o ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, gyda phwyslais ar yr ymrwymiad i gyflawni pedair blaenoriaeth y Prif Weinidog:

- Bydd cyllidebau adnoddau Cymraeg 2050 yn cynyddu £4.6m yn 2025-26, gan ddarparu cyfanswm o £38.7m ar gyfer 2025-26.  Bydd hyn yn darparu cymorth y mae mawr ei hangen i gynyddu'r defnydd o'r iaith.

ISBN 978-1-83715-066-3

- O ran y cyllidebau diwylliant, bydd cynnydd o £5m yn y cyllid adnoddau a £8.1m yn y cyllid cyfalaf a bydd £2m arall o gyllid cyfalaf ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a £6.3m ar gyfer Cadw. Mae cyllid adnoddau ychwanegol o £1.5m a £3m o gyllid cyfalaf yn cael ei fuddsoddi yn ein diwydiannau digwyddiadau a thwristiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiadau hyn yn helpu i gynyddu'r cyfleoedd i gymunedau ledled Cymru fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt sy'n cyfrannu at well iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd am swyddi yn y sectorau hyn.
- Mae Cadw wedi cael cyllid cyfalaf ychwanegol o £6.3m i gryfhau a gwella ein safleoedd treftadaeth ledled Cymru, gan ddiogelu ein hiaith a'n diwylliant.
- Byddwn yn darparu £8.1m o gyllid cyfalaf ar gyfer y rhaglen gyfalaf ddiwylliannol sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau daearyddol trwy roi mynediad i'n Casgliad Cenedlaethol yn agosach at ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn ymweld.

## Pum Ffordd o Weithio

75. Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau gwario ar gyfer 2025-26, rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion a ymgorfforwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn y cyd-destun hwn:

- **Yr hirdymor:** Rydym wedi buddsoddi yn y gwasanaethau craidd y mae pobl yn dibynnu arnynt i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.

- **Atal:** Yn y Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi gweithredu i gefnogi a diogelu gwasanaethau cyhoeddus. Er na fu'n bosibl osgoi pob effaith negyddol, bydd y cyllid cynyddol ar draws pob adran yn y Gyllideb Ddrafft eleni yn ein helpu i liniaru effeithiau uniongyrchol ar bobl a lleoedd cyn belled ag y bo modd.

- **Integreiddio:** Rydym wedi cynnal ein dull o ddeall effeithiau integredig y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud. Wrth ddefnyddio ein cyllid, rydym wedi ystyried bod y cyllid a ddyrannwyd yn sicrhau'r effaith orau bosibl gyda'r hyn sydd ar gael.

- **Cydweithio:** Wrth inni symud y tu hwnt i'r Gyllideb Ddrafft hon byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ehangach i gyflawni ein cynlluniau a'u cefnogi i ymateb i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.

- **Cynnwys:** Drwy gydol y broses o ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft hon rydym wedi ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol gan gynnwys y trydydd sector, yr awdurdodau lleol a Chomisiynwyr Statudol i ddeall effeithiau'r cyd-destun presennol er mwyn llunio ein cynlluniau gwario.

ISBN 978-1-83715-066-3